------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 86(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adroddiadau bod lefelau tlodi plant wedi codi yng Nghymru yn ystod y pandemig er eu bod wedi gostwng yng ngweddill gwledydd y DU?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 5-6 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

(10 munud)

## 5 Cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog - Rheol Sefydlog 34 a chymryd rhan o bell yn nhrafodion y Senedd

**NDM8063** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 34 a chymryd rhan o bell yn nhrafodion y Senedd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Gorffennaf 2022.

2. Yn cymeradwyo'r cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog 6, 12 a 17, fel y nodir yn Atodiad A i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi argymhelliad y Pwyllgor Busnes y dylai Rheol Sefydlog 34 beidio â bod yn effeithiol, fel y trefnwyd, ar 1 Awst 2022.

## 6 Cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog - Pleidleisio drwy Ddirprwy

**NDM8062** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 12.41A-H Dros Dro ar Bleidleisio Drwy Ddirprwy', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Gorffennaf 2022.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 12, fel y nodir yn Atodiad A i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

(5 munud)

**NNDM8068** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Sarah Murphy (Llafur Cymru) yn aelod o’r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Mike Hedges (Llafur Cymru).

## 7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Incwm Sylfaenol a'r newid i economi ddi-garbon

(60 munud)

**NDM8028** Jane Dodds (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod nifer sylweddol o weithwyr o Gymru yn cael eu cyflogi mewn diwydiannau a fydd yn cael eu newid yn sylweddol fel rhan o'r broses o drosglwyddo Cymru i economi ddi-garbon;

b) pwysigrwydd sicrhau newid teg i economi ddi-garbon;

c) cynllun peilot incwm sylfaenol parhaus Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried sut y gellid ymestyn y cynllun peilot incwm sylfaenol i weithwyr yn y diwydiannau hyn er mwyn llywio'r broses o drosglwyddo Cymru i economi ddi-garbon.

**Cyd-gyflwynwyr**

Carolyn Thomas (Gogledd Cymru)

Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru)

**Cefnogwyr**

Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

## 8 Dadl y Pwyllgor Cyllid – Blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24

(60 munud)

**NDM8060** Peredur Owen Griffiths (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r gwaith ymgysylltu a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid yn ymwneud â blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb 2023-24, ac yn nodi ymhellach y sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr yn y digwyddiadau a ganlyn:

a) digwyddiad i randdeiliaid yn Sefydliad Glowyr Llanhiledd;

b) gweithdy gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru; a

c) grwpiau ffocws ymgysylltu â dinasyddion.

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid

## 9 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Adnewyddu Rhaglen Ddileu TB Buchol Cymru

(30 munud)

**NDM8066** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Adnewyddu Rhaglen Ddileu TB Buchol Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mai 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Gorffennaf 2022.

## 10 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Hepatitis C

(30 munud)

**NDM8064** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod Cymru wedi gwneud cynnydd da tuag at ddileu feirws hepatitis C drwy sefydlu rhwydwaith clinigol cenedlaethol hynod effeithiol, yn ogystal â chael mynediad teg a thryloyw at driniaeth ledled y wlad.

2. Yn nodi'r llwyddiannau arloesol mewn sawl maes, gan gynnwys dileu feirws hepatitis C ym mhoblogaeth Carchar Ei Mawrhydi Abertawe (y carchar remánd cyntaf yn y DU), yn ogystal â thrawsblannu a thrin organau'n llwyddiannus gan roddwyr a oedd wedi eu heintio â feirws hepatitis C i dderbynwyr newydd - peth arall i ddigwydd fan hyn am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig.

3. Yn cydnabod, er bod Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn ymrwymedig i'w nod o ddileu strategol, fod angen mwy o flaenoriaethu ac adnoddau gwleidyddol i gau'r bwlch profi a thriniaeth sydd wedi dod i'r amlwg oherwydd pandemig COVID-19 ac i sicrhau na fydd yn mynd tu hwnt i ddyddiad targed 2030.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gorfodi ailsefydlu gwasanaethau rheng flaen ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed a gwasanaethau lleihau niwed ym mhob ardal bwrdd iechyd, fel y gellir ailddechrau'r broses o nodi, profi, a thrin cleifion feirws hepatitis C yng Nghymru, a'u cysylltu â gofal;

b) datblygu cynllun strategol cenedlaethol i ddileu feirws hepatitis C erbyn 2030 fan bellaf, sydd ag adnoddau cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n canolbwyntio ar y llwybr cyfan;

c) sicrhau bod byrddau iechyd yn cael eu hariannu a'u bod yn atebol am gyflawni'r cynllun strategol cenedlaethol, o ran darparu gwasanaethau, monitro data ac adrodd ar berfformiad.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

4. Yn nodi:

a) disgwyliad Llywodraeth Cymru y bydd gwasanaethau rheng flaen ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed a gwasanaethau lleihau niwed, gan gynnwys ar gyfer hepatitis C, yn cael eu hailsefydlu ym mhob ardal bwrdd iechyd cyn gynted â phosibl;

b) bod Llywodraeth Cymru yn gweithio’n agos gyda’r GIG yng Nghymru i gefnogi ei gynlluniau i sicrhau y gall Cymru gyrraedd targed Sefydliad Iechyd y Byd, sef dileu hepatitis C erbyn 2030;

c) bod systemau sefydledig ar waith i sicrhau bod byrddau iechyd yn cael eu cefnogi a’u dal yn atebol am gyrraedd y targed o ran darparu gwasanaethau, monitro data ac adrodd ar berfformiad.

## 11 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Digwyddiadau a sioeau'r haf

(30 munud)

**NDM8065** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu'r ffaith bod yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, ynghyd â sioeau a digwyddiadau haf ledled Cymru, wedi dychwelyd.

2. Yn cydnabod manteision tymor digwyddiadau'r haf o ran hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant Cymru, cynnyrch o Gymru a'n ffordd o fyw.

3. Yn diolch i bawb sy'n ymwneud â sicrhau bod y digwyddiadau'n llwyddiant.

## 12 Cyfnod Pleidleisio

## 13 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8061** Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

Pleidleisio yn 16 oed: Rhoi'r offer i bobl ifanc ddeall y byd y maent yn byw ynddo, a sut i'w newid, drwy addysg wleidyddol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Medi 2022

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 06/07/2022 i'w hateb ar 13/07/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## GWEINIDOG YR ECONOMI

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

1 OQ58364 **(w)**

Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i annog twf economaidd yn y gogledd?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

2 OQ58348 **(e)**

Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r economi yng Nghasnewydd drwy ddod â chyflogaeth i'r ddinas?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

3 OQ58345 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i hyrwyddo masnach a buddsoddiad yng Nghymru yn fyd-eang yn dilyn tîm pêl-droed dynion Cymru'n cymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd 2022?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

4 OQ58351 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr y mae newidiadau ym mholisi banciau o ran cyfrifon cleientiaid sydd heb eu dynodi yn cael effaith andwyol arnynt?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

5 OQ58339 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith economaidd Brexit ar Gymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

6 OQ58334 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Preseli Sir Benfro am y 12 mis nesaf?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

7 OQ58342 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo twf economaidd yng Ngogledd Cymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

8 OQ58343 (w)

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi ei wneud o bwysigrwydd ail-sefydlu marina yng Nghaergybi i economi'r dref?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ58353 (w)

Pa fanteision a ddaw i Ganolbarth a Gorllewin Cymru yn sgil sefydlu banc cymunedol i Gymru?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ58361 (e)

Sut mae'r Gweinidog yn gweithio i sicrhau bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang yn cael ei ymgorffori yn ei pholisi masnach?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ58354 (e)

Pa astudiaethau a gwerthusiadau sydd wedi'u cynnal o ran effeithiau treth dwristiaeth ar fusnesau Cymru?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

12 OQ58349 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r diwydiant lletygarwch?

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

1 OQ58358 (e)

Sut mae'r Gweinidog yn ystyried llais cleifion er mwyn llywio penderfyniadau ar flaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Ngogledd Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

2 OQ58352 (w)

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad am sefyllfa gwasanaethau deintyddol a ddarperir drwy’r GIG yn Arfon?

3 **Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

OQ58355 **(e)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y mesurau ymyrryd wedi'u targedu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

4 **Joel James** *Canol De Cymru*

OQ58340 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu ymwybyddiaeth o arwyddion a symptomau tiwmor yr ymennydd?

5 **Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

OQ58346 **(e)**

Sut y mae'r Gweinidog yn gweithio gyda Gweinidog yr Economi i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y ffaith bod tîm pêl-droed dynion Cymru wedi cymhwyso ar gyfer Cwpan y Byd 2022 i wella iechyd y cyhoedd drwy gymryd rhan mewn chwaraeon ar lawr gwlad?

6 **Peter Fox** *Mynwy*

OQ58356 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod cyfleoedd chwarae ar gael ac yn hygyrch i bob plentyn?

7 **Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

OQ58333 **(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella gwerth maethol prydau bwyd a weinir mewn ysbytai yng Nghymru?

8 **Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

OQ58362 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru?

9 **John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

OQ58347 **(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'i hagenda gofal iechyd ataliol?

10 **Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

OQ58332 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i atal clefyd y galon?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

11 OQ58335 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

12 OQ58337 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg am wasanaethau gofal sylfaenol?